

DAVIES, STEPHEN OWEN (1886?-1972), arweinwyr y glowyr a gwleidydd Llafur

Enw: Stephen Owen Davies

Dyddiad geni: 1886?

Dyddiad marw: 1972

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: arweinwyr y qlowyr a gwleidydd Llafur

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: John Graham Jones

Ganwyd ef yn 39 Stryd John, Abercwmboi, Abardâr, yn fywaf tebygol (neu'n swyddogol) ar 8 neu 9 Tachwedd 1886. Yn ôl rhai ffynonellau ganwyd ef ym 1883 neu hyd yn oed cyn hynny. Yn ôl Cyfrifiad 1891, roedd yn naw mlwydd oed ar y pryd. S. O. oedd y pedwerydd o chwech o blant a anwyd i Thomas Davies, gweithiwr fferm, glôwr a swyddog undeb llafur (bu yntau farw ym 1909), gŵr a gafodd ei ddiarddel o gapel Soar, Aberpennar ym 1904, ac Esther Owen, gweithwraig mewn siop leol, ac unigolyn arbennig o benderfynol a dyfeisgar. Addysgwyd S. O. Davies yn ysgol leol Cap Coch, Abercwmboi, a dechreuodd weithio ym mhwlwl gŵ Cwmpennar (lle'r oedd ei frodyr hefyd yn gweithio) pan nad oedd ond yn diudeddeg oed. Astudiodd beirianneg fwyngoldydd mewn dosbarthiadau nos, ac ym 1908, ac yntau wedi ei noddi gan Goleg Coffa Aberhonddu, dechreuodd fynychu Coleg y Brifysgol, Caerdydd, er mwyn astudio ar gyfer gradd BA. Ei fwriad ar y pryd oedd dod yn weinidog anghydfurfiol, ond, ar ôl i Davies wamalu rywfaint ynghylch natur ei gredoau crefyddol, collodd y cymorthdaliadau ariannol a dderbyniodd gynt gan Goleg Aberhonddu. Eto llwyddodd Davies i raddio ym 1913. (Flynyddoedd yn ddiweddarach daeth yn un o lywodraethwyr Coleg y Brifysgol, Caerdydd.) Astudiodd hefyd yn y Coleg Gwyddoniaeth Bherhinol Llundain. Yn ei fywyd cynnar dylanwadwyd yn drwm arno gan ddiwinyddiaeth R. J. Campbell. Fel myfyriwr, safodd S. O. yn ymgeisydd ar ran y Blaid Lafur Annibynnol ar gyfer Bwrdd Gwarchodwyr Dinas Caerdydd.

yn syth ar ôl graddio, gweithiodd S. O. Davies fel glöwr yn y Tymbl a gweithiodd hefyd fel atalbyswr ym 1913. Yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Byd Cyntaf mabwysiadwyd ef yn ymgeisydd ar ran y Blaid Lafur Annibynnol ar gyfer etholaeth Llanelni. Treuliodd yntau ei ieuencd yn maes glöw De Cymru a ddaeth o dan ddylanwad hynod o bwerau polisïau Sosialaidd a milwriaeth yr undebau llafur. Yn hydref 1918, yn fuan cyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, penodwyd ef yn asiant llawn-amser i ardal Dowlais Ffederasiwn Glöwr De Cymru, can barhau yn y swydd tan 1934. Gweithiodd mewn cysylltiad agos â **Noah Ablett**, asiant ardal Merthyr Tudful. Roedd hefyd yn gyfailli mynswelol i **W. H. Mainwaring**. Yn fuan daeth Davies yn enwog am ei weithgareddau milwriaethus. Daeth i wrthwynebu'n chwynr y galwadau ar ôl y rhyfel am genedlaetholi'r diwydiant glöw y Mhrydain. Bu'n ymweld â Rwsia ym 1922 a daeth i edmygu'n fawr y gyfundrefn Sofietaidd drwy gydol ei oes. Eto parhaodd yn deyrngar i'r Blaid Lafur - er iddo gael ei ddenu yn fawr gan apel i Blaid Gomiwnyddol. Ym 1924 penodwyd ef yn Brif Drefnydd ac yn Ymgyngorwr Cyfreithiol i Ffederasiwn Glöwr De Cymru, a daeth yn Is-Lwydd arni yn yr un fflwyddyn. Gwasanaethodd hefyd ar bwyllgor gwaith Ffederasiwn Glöwr Prydain Fawr, 1924-34, fel cynrychiolydd glöwr De Cymru, ac etholwyd ef yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful ym 1931. Yn ddiweddarach daeth yn henadur o'r Cyngor a gwasanaethodd fel Maer Merthyr Tudful ym 1945-46. Daliodd yn aelod o'r cyngor tan 1949.

Mewn is-etholiad ym 1934 etholwyd S. O. Davies yn AS Lafur dros etholaeth Merthyr Tudful yn olynnydd i Richard C. Wallhead a oedd wedi cynrychioli'r etholaeth fel AS y Blaid Lafur Annibynnol ers 1922. Dros y blynyddoedd bu Davies yn mwynhau mwyafrifoedd sylweddol yn mhob etholiad cyffredinol. Drwy gydol ei yrfa seneddol, roedd bob amser yn barod i ddilyn ei lwybr ei hun, yn fythol barod ar adegau i ymosod ar weithgareddau hyd yn oed llywodraeth Lafur. Fel canlyniad, ar dri achlysur gwahanol rhwng 1953 a 1961 cafodd ei amddifadu o chwip y blaid Lafur ar faterion yn ymddir i gorsafodd yr Americanwyr ym Mhrydain, ailargoi yng Ngogleirion yf Almaen, a gwrthwynebiad i raglen y llong danafod *Polaris*. Roedd byth a beunydd yn barod i ymosod ar lywodraethau Wilson y cyfnod 1964-70 oherwydd iddo anghydweld â'u polisiâu gwariant cyhoeddus, eu rheolaeth ar gyflogau a deddfwriaeth yn ymddir i'r undebau llafur. Bu hefyd yn gyson frwd ei gefnogaeth i hunanlywodraeth dros Gymru - yn hollol groes i safbwynt swyddogol ei blaid ar y pwnc. Cefnogodd yn frwdfrydig fudiad taer Senedd i Gymru'r cyfnod 1950-56. Ym 1955, gan weithredu'n hollol ar ei liwt ei hun, a heb yd yn oed ymgynghori â'i gydweithwyr o fewn mudiad Senedd i Gymru, cyflwynodd fesur Llywodraeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin. Yn unol â'r disgwyl, methiant llwyr fu'r mesur. Gwasanaethodd Davies hefyd yn un o lywodraethwyr yr Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol a Phrifysgol Cymru. Cyflwynodd dystiolaeth o flaen nifer fawr o ymchwilwiliaid cyhoeddus y llywodraeth.

Fel y gellid disgwyl, ni ddaliodd S. O. Davieroeddi swydd yn y llywodraeth. Eto profodd ei hun yn AS etholaethol ardderchog, yn fythol sensitif i anghenion a dyheadau pobol Merthyr Tudful. Roedd yn teimlo'n agos iawn at bobl y dref. Ei ddi-ddordebau gwleidyddol pennaf oedd diwygio cyfraith yswiriant cenedlaethol yn 1967 a'r angen i ddyfarnu iawndaliadau uwch i gyn-lowr y ddioddefai oddi wrth glefydau'n ymwneud â llwch. Yn llawn embaras, cyfaddefodd i dribrinyls trychineb Aberfan yn 1967 iddo gael amheuan mawr ynghylch diogelwch y pyllau glo yn yr ardal, ond iddo gadw'n dawl rhag i'w ymyrraeth arwain at gao pyllau glo lleol ac yna creu diweithdra ar raddfa fawr yn yr ardal. Yn aml iawn nid oedd Davies yn cyd-fynd â safbwynt ei blaid. Yn dilyn trychineb Aberfan, daeth yn hallt ei feirniadaeth ar y ffordd y cwyliwngod y llywodraeth iawndaliadu i deuluoedd y rhai a fu farw. Yn etholiad cyffredinol 1970 cafodd S. O. Davies ei ddad-ddewis gan y blaid Lafur lleol oherwydd ei odran (roedd yn 84 mwydd oed o leiaf), ond, ac yntau'n hollol amharhau i dderbyn fod ei yrfa wleidyddol bellach ar ben, safodd fel ymgeisydd Lafur annibynnol ac etholwyd ef i'r senedd gyda mwyafrif o 7,467 o bleidleisiau dros Tal Lloyd, yr ymgeisydd Llafur swyddogol. Yna cafodd Davies ei ddiarddel o'r Blaid Lafur. Roedd y canlyniad yn dyst huawdl i barch pobol Merthyr Tudful tuag at ei haelod seneddol. Yn y Senedd ar ôl hynny cadwodd mewn cysylltiad â'r Blaid Lafur Seneddol mewn ffordd ddigrl, a derbyniodd gopïau o chipw y Blaid Lafur, er mai aelod Annibynnol ydoedd yn swyddogol. Yn fuan ar ôl hynny, gwrthododd dderbyn rhyddid bwrdeistref Merthyr Tudful, gan ddatgan yn llawn balchder fod ei ailethol gan bobol Merthyr yn anrhydedd digonol iddo. Yn ei osgo personol, roedd Davies ymhell o fod yn chwyldraodol. Yn dal, gyda phersonoliaeth bleserus a dymunol, roedd ganddo ymagweddïad tawel yn allanol.

Yn Awst 1919 ymbriododd S. O. Davies â Margaret Eley (fe'i hadweinid fel Madge ar adegau), merch o Gaerdydd. Bu iddynt dair o ferched. Bu hithau farw o ganr ym 1932. Ddwy flynedd yn ddiweddarach ailbriododd â Sephora Davies, merch o Wauncaegurwen, Sir Gaerfyrddin, ac athrawes. Bu iddynt hwy ddau fab. Roedd y briodas yn berthynas hapus gyda'r ddau yn gefnogol i'w gilydd. Eu cartref oedd Gwynfryn Park Terrace, Merthyr Tudful. Diddordebau hamdden Davies oedd cerdded a nofio. Bu farw yn ysbty cyffredinol Merthyr Tudful ar 25 Chwefror 1972 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent gyhoeddus Abergennar o fewn Cwm Cynon, bro ei febyd. Gwerth ei ystâd

oedd £1,945. Yn yr is-etholiad a ddilynodd farwolaeth Davies, ailgipiwyd y sedd gan Ted Rowlands ar ran y Blaid Lafur, ond gwelwyd symudiad sylweddol iawn i gyfeiriad Plaid Cymru yn yr etholaeth. Mae papurau cynnar S. O. Davies sy'n tarddu o'r cyfnod pan oedd yn asiant y glowyr yng ngofal Gwasanaeth Archifau Morgannwg yng Nghaerdydd, tra mae ei bapurau gwleidyddol mwy diweddar ym meddiant Archif Maes Glo De Cymru ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

- Archifdy Morgannwg, *Papurau S.O. Davies*
- South Wales Coalfield Archive, *Papurau S.O. Davies*
- Robert Griffiths, *S.O. Davies a Socialist Faith* (1983)
- Who was who?*
- Labour Who's Who*, 1927
- Oxford Dictionary of National Biography*
- Dictionary of Labour Biography*, Cyf. VIII (1987)
- Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997* (Talybont 1999)
- Welsh Hustings - 1885-2004* (Rhydaman 2005)
- Dod's Parliamentary Companion*
- The Times*, 26 Chwefror 1972

Darllen Pellach

- Archifau LIGC: Brecon & Radnor Divisional Labour Party. "Prelude to Victory" Rural Campaign.
- Archifau LIGC: Merthyr Tydfil Division. Parliamentary Election, 1950. S. O. Davies Labour Candidate
- Archifau LIGC: Merthyr Tydfil Division Parliamentary Election, 1951... S. O. Davies Labour Candidate
- Erthygl Wicipedia: S. O. Davies

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 30936210

Wikidata: Q7387725

Dyddiad cyhoeddi: 2008-08-01

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

- PDF
- Argraffu
- Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Ynfrannu

Arddull APA



Jones, J. G., (2008). DAVIES, STEPHEN OWEN (1886?-1972), arweinwyr y glowyr a gwleidydd Llafur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c6-DAVI-OWE-1886>

Cyhoeddi

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodiwr gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government